# Tasg 1

**(Estynnol, sbardun 3)**

**Gweithgareddau ar gyfer unigolion**

1. Beth yw bwriad y darn?
   - a. Perswadio rhywun i brynu cardiau Cymraeg
   - b. Perswadio rhywun i ailgylchu
   - c. Rhoi gwybodaeth am gwmni
   - ch. Rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut i greu cardiau

   Ticiwch yr ateb cywir a chymharwch eich ateb gydag atebion pobl eraill yn y grŵp.

2. Rydych chi'n paratoi gwybodaeth am gwmnïau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer gwefan arbennig o'r enw **O Gymru**.

   Defnyddiwch y wybodaeth yn y proffil i ysgrifennu darn sy'n rhoi gwybodaeth am y cwmni hwn. Rhaid defnyddio brawddegau a pharagraffau.

## DYFAL DONC

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

*Ewch i'r dudalen nesaf.*

**Gweithgaredd grŵp**

3. Petai'r perchnogion eisiau addasu'r darn ar gyfer hysbysebu'r cwmni, beth fyddai angen iddyn nhw ei wneud, e.e.
   - Pa wybodaeth allen nhw ei dileu o'r darn?
   - Pa wybodaeth ddylen nhw ei phwysleisio?
   - Pa wybodaeth newydd ddylen nhw ei chynnwys?
   - Pa ddelweddau ddylen nhw ei chynnwys?
   - Sut dylen nhw addasu'r iaith?

   Trafodwch y pwyntiau hyn mewn grŵp, gan gofnodi'ch syniadau.
   Yna, cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

**Gweithgaredd ar gyfer unigolion**

4. Dewiswch gwmni yn eich ardal chi ac ysgrifennwch daflen i hysbysebu'r cwmni.

Cofiwch – os ydych chi eisiau hysbysebu, rhaid:
- dweud pethau da am y cynnyrch
- dangos y cynnyrch gorau
- ceisio perswadio'r darllenydd.

Gallech chi gynnwys:
- ansoddeiriau sy'n canmol, e.e. **lliwgar**, **defnyddiol**, **rhyfeddol**, **arbennig**, **anhygoel**
- cwestiynau, e.e. **Ydych chi eisiau ...?**, **Hoffech chi ...?, Ydych chi wedi gweld ein ...?**
- gorchmynion, e.e. **Ewch i ...**, **Dewch i weld drosoch eich hun**.